


**Adran yr Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Ardaloedd Menter Cymru: Y Cynnydd Diweddaraf

www.cymru.gov.uk



Hydref 2013

Cynnwys

Adran	Cynnwys	Tudalen
1	Cyflwyniad a Chyd-destun	3
Datblygiadau a Phrosiectau mewn Ardaloedd Penodol		
2	Ynys Môn	4
	Canol Caerdydd	7
	Glannau Dyfrdwy	11
	Glyn Ebwy	15
	Dyfrffordd y Ddau Gledau	19
	Eryri	22
	Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd	25
Darpariaeth Drawsbynciol i Ardaloedd Menter Cymru		
3	Trafnidiaeth	27
	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	27
	Datblygu Sgiliau	29
	Cynllun Ardrethi Busnes	31
	Lwfansau Cyfalaf Uwch	34
	Gorchmynion Datblygu Lleol	35
	Datblygu Busnes a Marchnata	35
	Mesur Cynnydd ar draws Ardaloedd Menter	35
	Arolwg Hydredol	36
4	Camau Nesaf	36

Cyflwyniad a Chyd-destun

Yn 2012, lansiodd Llywodraeth Cymru saith **Ardal Fenter** ledled Cymru. Ardaloedd daearyddol dynodedig yw'r Ardaloedd Menter, ac maent yn cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu drwy ddarparu seilwaith busnes a chymorth o'r radd flaenaf.

Mae gan bob Ardal Fenter Fwrdd Cynghori allanol a arweinir gan y sector preifat. Mae'r Byrddau hyn wedi darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar y weledigaeth strategol a'r blaenoriaethau o ran cefnogi swyddi a thwf ym mhob Ardal.

Mae pob un o'r Ardaloedd Menter yn canolbwyntio ar o leiaf un sector busnes allweddol. Yr ardaloedd yw:

- **Ardal Fenter Ynys Môn** – yn canolbwyntio ar y sector ynni a'r amgylchedd;
- **Ardal Fenter Canol Caerdydd** – yn canolbwyntio ar y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol;
- **Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy** – yn canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch;
- **Ardal Fenter Glyn Ebwy** – yn canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch;
- **Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau** – yn canolbwyntio ar y sector ynni a'r amgylchedd;
- **Ardal Fenter Eryri** – yn canolbwyntio ar y sectorau ynni a'r amgylchedd, TGCh a deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch.
- **Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd** – yn canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, ac yn enwedig ei is-sector awyrofod.

Diben y Ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r strategaeth, y prosiectau a'r datblygiadau allweddol a nodwyd gan Fyrddau'r Ardaloedd Menter. Mae hefyd yn amlinellu'r gweithgareddau trawsbynciol sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, ei phartneriaid a'i rhanddeiliaid allweddol er mwyn cefnogi datblygiad yr Ardaloedd a mesur eu cynnydd a'u cyflawniad.

Mwy o Wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am Ardaloedd Menter Cymru, ewch i <http://enterprisezones.wales.gov.uk/cy> neu ffoniwch Linell Gymorth Gwybodaeth Busnes Llywodraeth Cymru ar 0300 6 03000.

Ardal Fenter Ynys Môn



Prentisiaethau yng Ngholeg Menai, Ynys Môn

“Caiff 70 o brentisiaethau newydd mewn peirianeg ac adeiladu eu creu ledled y Gogledd-orllewin trwy hwb ariannol o bron i £900,000 gan Lywodraeth Cymru. Dyma gyfle gwyh i bobl ifanc Ynys Môn a’r Gogledd-orllewin gael prentisiaethau a manteisio ar gyfleoedd gwaith yn y sector peirianeg ac adeiladu yn y dyfodol gyda datblygiadau megis adeiladu’r Wylfa newydd a thyrbinau gwynt morol ac ar y môr”.

John Idris Jones, Rheolwr y Rhaglen Ynys Ynni

Y weledigaeth ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw creu canolfan ragoriaeth heb ei hail ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. Mae’r Ardal yn canolbwyntio ar wyth safle strategol sy’n ategu’r Rhaglen Ynys Ynni:

- Cynhyrchu – buddsoddi mewn cynhyrchu ynni carbon isel newydd i helpu i sicrhau dyfodol ynni sefydlog i Gymru.
- Arddangos – darparu cyfleusterau heb eu hail er mwyn sefydlu Ynys Môn fel lleoliad blaenllaw ar gyfer arloesi ac arddangos ynni carbon isel newydd.
- Gwasanaethu – sicrhau ein bod yn bachu ar bob cyfle mewn perthynas â’r gadwyn gyflenwi a’u datblygu i’r eithaf.

Mae amryw o gynigion ynni a morol allweddol yn mynd rhagddynt er mwyn cefnogi'r weledigaeth hon:

- Mae cyfraniad ariannu ar y cyd gyda Stena ar Uwchgynllun Datblygu Porthladd Caergybi ar waith i archwilio cyfleoedd datblygu i'r dyfodol; bydd hyn yn ystyried amrywiaeth o gyfleoedd yn y marchnadoedd tyrbinau gwynt ar y môr, morol, niwclear a mordeithio. Disgwylir adroddiad yr uwchgynllun hwn yn ystod yr hydref.
- Ymrwymiad ariannol o £2.2 miliwn er mwyn cefnogi cynlluniau a arweinir gan Conygar Investment Company PLC i ddatblygu cam cyntaf canolfan logisteg a dosbarthu ym Mharc Busnes Parc Cybi.
- Paratoi pecynnau gwybodaeth i fuddsoddwyr ar gyfer yr wyth safle strategol o fewn yr ardal ac adroddiadau uwchgynllunio ar gyfer Llangefni, Gaerwen, Rhosgoch a Penrhos. Yn ogystal â bod o werth fel adnoddau marchnata, bydd yr adroddiadau hyn, a ddylai fod yn barod yn yr hydref, yn helpu i lywio gofynion seilwaith a'r blaenoriaethau sydd eu hangen i gefnogi datblygiad Ynys Môn fel lleoliad blaenllaw ar gyfer arloesi, cynhyrchu ac arddangos ynni carbon isel.
- Gweithio gyda Phrifysgol Bangor a Chyngor Sir Ynys Môn i ddatblygu Parc Gwyddoniaeth Menai. Bydd y datblygiad hwn yn dod â mentrau academiaidd a masnachol ynghyd i helpu Cymru i elwa'n llawn ar y prosiectau ynni pwysig arfaethedig yn yr Ardal.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu asesiad sylweddol o gapasiti'r gadwyn gyflenwi niwclear. Bydd ymarfer mapio sy'n costio £168,000 yn llywio ymyriadau er mwyn cefnogi busnesau cynhenid yn well a helpu i nodi'r bylchau y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn denu mwy o fewnfuddsoddwyr i'r Ardal.
- Mae gwaith ar y gweill gyda AdAS a phartneriaid eraill i gefnogi Cwmni Prentis Menai.
- Mae gwaith ar y gweill i adolygu anghenion eiddo yn Ynys Môn yn unol â strategaeth y Bwrdd i nodi eiddo sydd ar gael ar gyfer creu busnesau a swyddi yn yr Ardal.
- Mae'r gwaith o ddarparu band eang wedi'i flaenoriaethu ar gyfer yr Ardal; mae'r gwaith cynllunio cychwynnol wedi'i gwblhau a disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno tua chanol 2014.

Astudiaeth Achos - Holyhead Marine




Mae gan Holyhead Marine Service Ltd, a sefydlwyd ym 1962 ac sydd wedi'i leoli yn Ardal Fenter Ynys Môn, dros ddeugain mlynedd o brofiad. Yn ddiweddar, mae'r cwmni wedi ehangu o fewn yr Ardal Fenter gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r pecyn cymorth, a oedd yn cynnwys cyllid busnes o £84,000, wedi galluogi'r cwmni i greu 12 o swyddi pellach.

Mae Holyhead Marine wedi tyfu o atgyweirio ac ailwampio cychod pleser yn y 1960au i arbenigo mewn adeiladu o'r newydd, ail-ffitio ac atgyweirio llongau masnachol megis badau achub yr RNLI, cychod patrolio'r Royal Archer Class, cychod peilot a harbwr, cychod arolwg, cychod pysgota a chychod tynnu, ac mae ganddo bortffolio eang o ddyluniadau ar gyfer cychod i ddiwallu anghenion ei gleientiaid masnachol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Holyhead Marine wedi ehangu i'r sector milwrol, gan ennill amryw o gontractau uchel eu bri i adeiladu cychod ar gyfer y Llynges Frenhinol a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ac mae hyn wedi arwain at amryw byd o gyfleoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae contractau diweddar yn cynnwys adeiladu dau gwch peilot ar gyfer y Sydney Ports Corporation.

Ardal Fenter Canol Caerdydd



“Mae'r cynnydd mewn sefydliadau academiaidd yng Nghymru yn golygu bod gennym ni fel cyflogwr gronfa ragorol o raddedigion dawnus ar garreg y drws. Mae gennym weithlu hapus a chadarn ac rydym yn ffyddiog bod ein lleoliad gwych yn gyfrifol i raddau helaeth am hyn.”

Alun Sweeney, Cyfarwyddwr Atradius, y DU ac Iwerddon

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer Ardal Fenter Canol Caerdydd yw helpu i greu un o leoliadau busnes mwyaf blaenllaw'r DU gyda'r nod o ddenu buddsoddiad newydd, hwyluso datblygiad swyddfeydd newydd o safon a mathau eraill o seilwaith ategol a chreu swyddi cynaliadwy newydd o safon uchel. Nod Ardal Fenter Canol Caerdydd yw:

- Gwneud y gorau o fanteision cystadleuol a rhinweddau presennol y ddinas.
- Helpu i gyflwyno datblygiadau newydd o safon sy'n diwallu anghenion busnesau modern.
- Cefnogi busnesau, yn enwedig trwy becynnau hyfforddiant ac addysg newydd a gwell ar gyfer busnesau sy'n adleoli i'r Ardal Fenter.

- Cynnal a meithrin cysylltiadau trafnidiaeth presennol – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Datblygu'r seilwaith TGCh presennol a seilwaith cyfleustodau ategol eraill, gan alluogi Caerdydd i ddod yn ddinas â chysylltiadau gwych.
- Manteisio ar y manteision economaidd a gynigir gan y Ddinas-ranbarth ehangach a gwella ffyniant y Ddinas-ranbarth.

Dyma rai prosiectau allweddol sy'n cael eu cyflwyno i gefnogi datblygiad y weledigaeth hon:

- Penodi cynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys asiantau eiddo, i helpu i ddatblygu prosiectau yn yr Ardal.
- Caffael Safle EO4, Sgwâr Callaghan, gan ddarparu 500,000 o droedfeddi sgwâr o ofod Gradd A i fusnesau.
- Caffael 'Adeilad 1' yn Sgwâr Callaghan er mwyn darparu 90,000 o droedfeddi sgwâr o ofod Gradd A i fod ar gael i'w osod erbyn y gwanwyn 2015.
- Caffaeliad amodol 79,500 o droedfeddi sgwâr o ofod Gradd A yn y Capital Quarter, Caerdydd – Adeilad JR Smart i fod ar gael i'w osod erbyn mis Ebrill 2014.
- Cynnig Grant Datblygu Eiddo i annog datblygiad 75,000 o droedfeddi sgwâr pellach o ofod Gradd A gan JR Smart erbyn 2017.
- Cytuno i werthu safle Llywodraeth Cymru i JR Smart er mwyn helpu i ddatblygu'r Capital Quarter mewn ffordd gynhwysfawr a chydlynol a dod â'r cynllun yn agosach at Sgwâr Callaghan a'r ardal ganolog.
- Cynnig grant tuag at ddarparu pont newydd arloesol i gysylltu'r Capital Quarter â chanol y ddinas yn Stryd Pellet.
- Gwaith i archwilio gwelliannau pellach i seilwaith TGCh yr Ardal.

Astudiaeth Achos – Deloitte yng Nghaerdydd



Ross Flanigan, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ansawdd a Risg Deloitte UK

Mae tîm arbenigol bach yn Deloitte, sydd wedi'i leoli yn Ardal Fenter Canol Caerdydd, wedi tyfu i fod yn uned ymchwil a chydymffurfio aml-swyddogaeth gyda chylch gwaith byd-eang. Nod y tîm, a sefydlwyd yng Nghaerdydd i fynd i'r afael â bygythiadau gwyngalchu arian sy'n wynebu'r proffesiwn cyfrifeg, ac sydd wedi'i leoli ym mhrif swyddfa Deloitte yng Nghymru, yw helpu ymarferwyr treth y DU yn y cwmni i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth gynyddol yn erbyn gwyngalchu arian, arian i derfysgwyr a chuddio enillion sy'n deillio o droseddau.

Arweiniodd llwyddiant y tîm at ehangu ei gyfrifoldebau gwreiddiol ac mae'r tîm cychwynnol o wyth o bobl wedi tyfu i oddeutu 70; gan godi eto i 90 yn y dyfodol agos. Heddiw, fodd bynnag, mae'r adran yn darparu pob math o gymorth arbenigol ar gydymffurfio ledled sefydliad Deloitte ym mhedwar ban byd.

Er bod twf cyflym Deloitte dros y tair blynedd diwethaf wedi arwain at ystyried adleoli'r uned, penderfynwyd heb amheuaeth ei chadw yng Nghaerdydd, lle'r oedd wedi llwyddo i recriwtio llif graddol o weithwyr proffesiynol heb eu hail i gyflawni'r gwaith cymhleth hwn.

Erbyn hyn, mae gan yr Uned Gweithrediadau Ansawdd a Risg swyddfeydd yn Fusion Point gerllaw'r brif orsaf reilffordd, lle mae'n elwa ar gysylltiadau cyfathrebu cyflym â Llundain. Mae yng nghanol Ardal Fenter Canol Caerdydd, sef yr unig Ardal Fenter yn y DU sy'n arbennig ar gyfer y Sector Gwasanaethau Ariannol a Busnes Proffesiynol. Heddiw, mae bron i draean o holl staff Deloitte yn y ddinas yn gweithio yn yr Ardal.

Yn ogystal â gwaith i gleientiaid, mae'r uned yn gweithredu rhaglen adolygu ymarfer hefyd; math o dîm archwilio mewnol a fydd yn ymweld â phob rhan o adran gwaith treth Deloitte bob tair blynedd.

Maes arbenigedd arall sy'n tyfu'n gyflym yw datrys anghydfodau yn yr amgylchedd busnes; cyn hir, bydd y ddisgyblaeth hon yn ychwanegu 20 o bobl eraill at y cyfanswm a gyflogir.

Gyda phob pennod yn ei ddatblygiad, mae'r cwmni wedi gweld ei benderfyniad gwreiddiol i leoli yng Nghaerdydd yn dwyn ffrwyth.

"Bod yma yng Nghaerdydd gyda'r tîm hwn yw'r peth gorau i'n busnes," meddai cyfarwyddwr swyddfa Caerdydd, Ross Flanigan, sy'n esbonio y rhoddwyd ystyriaeth ddwys yn y dyddiad cynnar i leoli'r tîm yn Llundain ac, o ganlyniad, wrth iddo dyfu, trafodwyd safleoedd yng Ngwlad Pwyl, Hwngari, y Weriniaeth Tsiec ac India.

Ychwanegodd Ross fod y sgiliau a'r wybodaeth sydd eisoes wedi'u datblygu yng Nghaerdydd wedi creu canolfan wasanaeth werthfawr a rennir gan nifer o ganghennau'r busnes ar draws pob cyfandir; sy'n edrych am gymorth cydymffurfio a mwy a mwy o waith ymchwil trylwyr amrywiol.

"Yn y pen draw, ni chynhyrchodd y cymariaethau rhwng Caerdydd a'r ardaloedd eraill unrhyw beth i'n denu oddi yma. Penderfyniad busnes ydoedd," meddai Ross.

Ychwanegodd: "Y prif ffactor llwyddiant yw'r bobl. Ni fyddem wedi gallu cyflawni'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni heb y gweithlu amrywiol a galluog. Mae safon uchel yr ymgeiswyr wedi creu cryn argraff arna i bob tro yr wyf wedi mynd ati i recriwtio. Mae'r rhan fwyaf o'n pobl yn raddedigion ac mae yna gronfa enfawr o bobl ar gael yn y disgyblaethau perthnasol."

Mae nifer y prifysgolion yn yr ardal – gyda phedair o fewn 15 milltir – a chronfa hyfforddi o hyd at £400,000 gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod y cwmni wedi gallu recriwtio a hyfforddi staff i greu gweithlu hynod effeithiol.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth a'r cysylltiadau band eang cyflym diweddaraf wedi bod yn ffactorau pwysig hefyd. Meddai Ross: "Mae'r ardal yn tyfu ac mae cysylltiadau trafnidiaeth a thelathrebu'n dda iawn. Ar lefel bersonol, mae hefyd yn ddeniadol iawn i ddarparu staff. Does dim byd ar goll o'm bywyd busnes neu bersonol yn yr ardal hon."

Nid dyma ddiwedd y fantais sydd gan Gymru. Ychwanegodd: "Mae hefyd wedi helpu gyda chynghor ar fusnes rhyngwladol ac wedi darparu rhwydwaith cysylltiadau gwyb a fydd yn werthfawr tu hwnt wrth i ni dyfu."

Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy



Mae Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn cwmpasu ardal gyflogaeth bwysicaf y Gogledd; ardal sy'n ymestyn o Bont Sir y Fflint yn y gogledd, ar hyd afon Dyfrdwy i Frychdyn. O fewn yr Ardal, mae'r safleoedd sy'n gysylltiedig â sawl cwmni angori, cyflogwyr allweddol a sgiliau sy'n hollbwysig i economi Cymru yn cynnwys:

- Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, sy'n darparu dros 9,000 o swyddi ar y safle.
- Cyflogwyr o bwys sy'n cynnwys Airbus, Toyota, UPM a Tata Steel. Mae Airbus yn cyflogi tua 6,000 o staff, gyda 2,000 o isgcontractwyr a chyflenwyr eraill ar y safle yng Nglannau Dyfrdwy a'r cyffiniau.
- Porth y Gogledd, y safle datblygu defnydd cymysg mwyaf yng Nghymru.

Uchelgais yr Ardal Fenter yw trawsnewid yr Ardal a pharhau â'r broses honno er mwyn gwneud Glannau Dyfrdwy yn ganolfan heb ei hail am weithgynhyrchu uwch a thechnoleg. Bydd hon yn ardal lle mae rhagoriaeth gydnabyddedig wedi'i hangori ym meysydd awyrofod, peirianeg modurol, electroneg, cynhyrchion fferyllol, adeiladu, bwyd, papur a phecynnu ac ynni cynaliadwy.

Mae prosiectau allweddol sy'n cael eu darparu i gefnogi'r weledigaeth hon ar gyfer Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn cynnwys:

- Caffael ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd sy'n ofynnol er mwyn diogelu safle'r Porth y Gogledd. Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn ddiweddarach eleni, a bydd yn gam sylweddol ymlaen tuag at ddatgloi potensial Porth y Gogledd fel lleoliad busnes o bwys.
- Trafodaethau gyda'r datblygwr preifat ynglŷn â seilwaith safle Porth y Gogledd fel bod modd dechrau ar y gwaith adeiladu yn 2014.
- Cyllid ar gyfer astudiaeth dichonoldeb cam 1 mewn perthynas â Pharc Sgiliau a Gweithgynhyrchu Uwch Gogledd Cymru, i'w gwblhau yn yr hydref.
- Mae gwaith wedi dechrau ar adolygu anghenion eiddo yng Nglannau Dyfrdwy yn unol â strategaeth y Bwrdd sef nodi eiddo sydd ar gael ar gyfer busnesau a swyddi yn yr Ardal.
- Mae gwaith wedi dechrau ar gefnogi trefniadau ehangu amryw o fusnesau yn y sectorau Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch a Gwyddor Bywyd.
- Mae'r ddarpariaeth band eang wedi'i blaenoriaethu ar gyfer yr Ardal; mae'r gwaith cynllunio cychwynnol wedi'i gwblhau a disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno tua chanol 2014.

Astudiaeth Achos – ConvaTec



Mae ConvaTec, y cwmni technoleg feddygol rhyngwladol sy'n cyflogi 600 o bobl mewn tri chyfleuster yng Nghymru, gan gynnwys yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, yn buddsoddi £3.7 miliwn yn y gwaith o ehangu ei weithrediadau gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y buddsoddiad yn ei Ganolfan Gweithgynhyrchu Byd-eang ar Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy yn creu 67 o swyddi newydd ac yn diogelu 16 o swyddi eraill. Mae'r Ganolfan yn arbenigo mewn cynhyrchu cynhyrchion gofal clwyfau ac ostomi sy'n cael eu hallforio'n fyd-eang.

Gyda phecyn cymorth cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid busnes a chymorth hyfforddiant i'r busnes, bydd y buddsoddiad deublyg yn datblygu llinell gynhyrchu newydd ar gyfer ei orchuddion sbwng Aquacel arloesol yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae'r cynnyrch hwn yn cael ei gynhyrchu yn UDA gan gontractwyr allanol ac roedd Cymru'n cystadlu â deg o safleoedd eraill ConvaTec o bedwar ban byd am y prosiect.

Bydd yr ail brosiect yn sefydlu canolfan newydd ar gyfer gwasanaethau a rennir yng Nglannau Dyfrdwy, gan ddarparu cymorth ariannol a chyfrifyddu i rwydwaith ConvaTec. Mae gan ConvaTec waith ymchwil a datblygu yng Nglannau Dyfrdwy a ffatri weithgynhyrchu arall yn Rhymni.

"Rwyf wrth fy modd bod cymorth Llywodraeth Cymru wedi helpu i ddod â'r ddau brosiect pwysig hwn i Gymru, gan greu amrywiaeth eang o swyddi gyda chyflogau da. Bydd y buddsoddiad yn cryfhau presenoldeb ConvaTec yng Nghymru ac yn rhoi hwb pellach i'n sector blaenoriaeth, sef

gwyddor bywyd, sy'n ehangu o hyd. Mae ConvaTec yn gweithio yn yr is-sector arbenigol sy'n ymdrin â gwella clwyfau, lle mae gan Gymru gryfder arbennig, a dyma'r cwmni mwyaf a phwysicaf sy'n gweithio yn y maes hwn yng Nghymru."

Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Ardal Fenter Glyn Ebwy



Mae gan Lynebwy a'r cyffiniau dreftadaeth ddiwylliannol gref a hanes hir o weithgynhyrchu. Mae'r ardal eisoes yn gartref i gwmnïau rhyngwladol blaenllaw megis Tenneco, Yuasa Battery, Continental Teves, G-TEM, Penn Pharma a Monier Redland.

Mae Ardal Fenter Glyn Ebwy yn cynnwys pum ardal gyda chyfanswm o ryw 40 hectar o dir y gellir ei ddatblygu: -

- Rhyd-y-blew
- Safle y Gweithfeydd
- Parc Busnes Tredegar
- Ystad Ddiwydiannol Rasa
- Bryn Serth

Mae yna bosibilrwydd y gall safle datblygu arall fod ar gael yn yr Ardal yn y dyfodol, os bydd prosiect Cylchdaith Cymru yn llwyddo i fynd drwy ei gyfnod datblygu. Cafodd y prosiect ganiatâd cynllunio amlinellol gan yr Awdurdod Lleol ym mis Awst 2013.

Rhyd-y-blew yw un o'r safleoedd datblygu mwyaf o'i fath yn y Cymoedd, ac mae ganddo fynediad rhagorol a'r potensial ar gyfer seilwaith gwych. Dyma'r prif safle datblygu yn yr Ardal y gellid ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau buddsoddi ar raddfa fawr. Bydd y pedwar safle allweddol arall yn addas ar gyfer denu pob math o fuddsoddiadau mawr a bach.

Bydd datblygiad Ardal Fenter Glyn Ebwy yn adeiladu ar hanes llwyddiannus yr ardal o gyflawni prosiectau gweithgynhyrchu er mwyn creu parth uwch-dechnoleg bywiog heb ei ail ar gyfer cwmnïau cynhyrchu yng Nghymru. Bydd yr Ardal yn denu busnesau o bob maint yn cwmpasu

llawer o wahanol is-sectorau allweddol, gan ddarparu swyddi sy'n cyflwyno her, sy'n rhoi boddhad ac sy'n cael eu gwerthfawrogi.

Dyma'r datblygiadau allweddol sydd ar y gweill i helpu i wireddu'r weledigaeth hon:

- Arian cyfatebol o £1.2 miliwn a £720,000 gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer seilwaith safle Rhyd-y-blew er mwyn hwyluso darpariaeth safle strategol ar gyfer yr Ardal.
- Buddsoddiad o £110,000 i uwchraddio capasiti'r cyflenwad pŵer trydan ar gyfer safleoedd datblygu yn yr Ardal.
- Dechrau gwaith paratoi a chodi arwyddion gwerth £250,000 er mwyn helpu pob safle allweddol a nodwyd i fod yn barod ar gyfer buddsoddiad.
- Grant Datblygu Eiddo o £2 filiwn i Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd i gefnogi cyfnod datblygu prosiect cychwynnol prosiect Cylchdaith Cymru.
- Mae'r gwaith o ddatblygu ffordd ddeuol newydd yr A465 eisoes wedi cychwyn, gyda buddsoddiad o £40 miliwn.
- Datblygu estyniad gwerth £11 miliwn i'r llinell reilffordd o Barcfordd Glynebwy i safle Gweithfeydd Glynebwy.
- Mae'r ddarpariaeth band eang wedi'i blaenoriaethu ar gyfer yr Ardal; mae'r gwaith cynllunio cychwynnol wedi'i gwblhau a disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno tua chanol 2014.

Astudiaeth Achos – AB Cardinal Packaging



Y Rheolwr Gyfarwyddwr Dermot Brady, y Gweinidog Busnes Edwina Hart a'r Cadeirydd Tony Richie ar daith o amgylch AB Cardinal Packaging.

“Cawsom gymorth amhrisiadwy gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ein hamcanion. Ar ôl caffael busnes ansolfent â phroblemau amgylcheddol a hen beiriannau, aethom ati i foderneiddio'r ffatri, datrys yr holl faterion amgylcheddol a darparu swyddi parhaol diogel i 68 o bobl.”

Dermot Brady, Rheolwr Gyfarwyddwr, AB Cardinal Packaging.

Mae Cardinal Packaging ar Ystad Ddiwydiannol Rasa, sy'n rhan o Ardal Fenter Glyn Ebwy, wedi gweddnewid yn llwyr. Mewn prin ddwy flynedd, mae'r cwmni wedi datblygu o fod yn fusnes ansolfent a oedd yn gwneud colled i fod yn gwmni deinamig modern sy'n cyflogi bron i 70 o bobl.

Roedd cymorth o £500,000 gan Gronfa Fuddsoddi Sengl Llywodraeth Cymru yn hollbwysig i benderfyniad AB Group i gymryd yr awenau yn 2010, gan arbed y cwmni rhag gorfod cau gan golli 40 o swyddi. Roedd adferiad y cwmni mor gyflym fel y bu'n rhaid iddo fuddsoddi mewn cyfarpar ychwanegol yn 2012 i ateb y galw cynyddol am archebion newydd, a gefnogwyd gan grant o £500,000 trwy Gronfa Twf Economaidd Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd hefyd ym mis Mawrth 2013 fod AB Cardinal, ochr yn ochr â chwmnïau eraill yn Ardal Fenter Glyn Ebwy, wedi bod yn llwyddiannus gyda'u cais am gymorth trwy gynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ar 15 Ionawr 2013. Bydd y cwmnïau hyn yn elwa ar gyllid tuag at eu hardrethi busnes dros y tair blynedd nesaf. Mae AB Cardinal yn gweithredu mewn uned sy'n 61,440 o droedfeddi sgwâr ac mae ganddo ei gyfleuster gwneud platiau, allwthio a graffeg ei hun o dan un to, felly mae'r holl brosesau'n cael

eu cyflawni ar y safle. Cafodd y cwmni £165,000 o gymorth trwy gynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter.

“Mewn ychydig dros ddwy flynedd, mae’r busnes wedi’i weddnewid yn llwyr ac, erbyn hyn, mae’n gyflogwr o bwys yn yr ardal, sy’n cefnogi’r economi ranbarthol a helpu i greu cyfoeth. Rwy’n falch bod cymorth gan Lywodraeth Cymru wedi gwneud cyfraniad mor allweddol at gefnogi’r adferiad ac ehangiad parhaus y cyfleuster – gan ddiogelu a chreu swyddi y mae angen mawr amdanynt.”

Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau



“Cafodd Consort ei ddenu i Aberdaugleddau, a oedd yn ardal ddatblygu ar y pryd, ym 1966. Ers bron i hanner can mlynedd, rydym wedi derbyn cymorth gwych, a hynny gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro bellach. Mae'r Ardal Fenter newydd wedi ein cymell i fuddsoddi unwaith eto yn y cyfarpar cyfalaf diweddaraf, gan sicrhau bod gan y ffatri y dechnoleg ddiweddaraf a'i bod yn gallu cystadlu mewn marchnad fyd-eang.”

Ed Spankie, Rheolwr Gyfarwyddwr, Consort Equipment

.....

Mae Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn cynnwys amryw o safleoedd allweddol sy'n ymestyn o ardal Aberdaugleddau ei hun i ardaloedd cyfagos Honeyborough, Thornton a Maes Awyr Hwlfordd. Mae'r Ardal yn cynnig y canlynol i gwmnïau ynni adnewyddadwy a thraddodiadol: canolfan ddiwydiant a chadwyn gyflenwi, ynghyd â gweithlu medrus, seilwaith dosbarthu sefydledig, detholiad o safleoedd i ddiwallu amrywiaeth o anghenion a rhwydwaith o brifysgolion ag arbenigedd mewn meysydd amrywiol yn ymwneud ag ynni.

Mae'r gwaith o greu Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn seiliedig ar y weledigaeth o fuddsoddi ymhellach mewn prosiectau ynni, creu swyddi gwyrdd ynghyd â datblygu a gwella swyddi presennol yn y sector ynni yn yr ardal.

Dyma'r weledigaeth ar gyfer yr Ardal Fenter:

- Dod â safle Waterston i'r farchnad yn dilyn rhaglen o waith paratoi.

- Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu pecynnau hyfforddi arbenigol sy'n ymwneud ag ynni yn yr Ardal.
- Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu Canolfan Ragoriaeth Forol.
- Mae gwell cysylltiadau ffordd yn bwysig i ddatblygiad yr Ardal i'r dyfodol – yn enwedig, gwelliannau pellach i'r A40 a ffordd fynediad newydd i safle Waterston.

Mae prosiectau allweddol sydd eisoes ar waith yn cynnwys:

- Buddsoddiad o £135,000 mewn astudiaethau i ddod â safleoedd i'r farchnad, gan gynnwys safle Waterston. Mae'r safle bellach yn barod i'w farchnata ar ôl penodi asiantau eiddo. Gwahoddir datganiadau o ddiddordeb gan fuddsoddwyr posibl mewn prosiectau yn ymwneud ag ynni neu'r porthladd.
- Gwaith yn archwilio potensial safle Blackridge yn y dyfodol, gyda'r uchelgais o fanteisio ar botensial busnes y safle allweddol hwn yn yr Ardal.
- Mae ymarfer dichonoldeb a chwmpasu ar waith i archwilio potensial Canolfan Ragoriaeth Forol.
- Cysylltiadau â chwmnïau lleol yn canolbwyntio ar gyfleoedd datblygu busnes yn yr Ardal.
- Mae'r ddarpariaeth band eang wedi'i blaenoriaethu ar gyfer yr Ardal; mae'r gwaith cynllunio cychwynnol wedi'i gwblhau a disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno tua chanol 2014.

Astudiaeth Achos – Mustang Marine



Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yw cartref Mustang Marine, y cwmni a gyhoeddodd yn ddiweddar y bydd yn creu 100 o swyddi newydd trwy wario £1.5 miliwn i ehangu cwmni adeiladu cychod yn Sir Benfro.

Mae Mustang Marine, sydd hefyd yn atgyweirio cychod, yn adeiladu neuadd adeiladu cychod newydd ym Mhorthladd Penfro, a'i fwriad yw dyblu ei weithlu. Yn ôl y cwmni, penderfynwyd gwneud hyn yn sgil galw cynyddol o bob cwr o'r byd. Dyma'r buddsoddiad mawr cyntaf yn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

Y gobaith yw y bydd yr ehangu'n annog cwmnïau ynni adnewyddadwy i ddefnyddio'r cyfleusterau ym Mhorthladd Penfro, sy'n rhan o Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

Dywedir mai ehangiad Mustang Marine yw'r rhan fwyaf uchelgeisiol o ddatblygiad cam wrth gam y Royal Dockyard hanesyddol. Yn y 200 mlynedd ers ei sefydlu, mae wedi lansio pump o gychod Brenhinol a thros 200 o longau'r Llynges Frenhinol.

Mustang Marine oedd un o'r cyntaf i dderbyn Cynllun Ardrethi Busnes Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2013, yn sgil ei gais llwyddiannus am gymorth. Bydd y cwmni'n elwa ar gyllid tuag at ei ardrethi busnes dros y tair blynedd nesaf ochr yn ochr 16 o gwmnïau eraill a fu'n llwyddiannus yn yr Ardal Fenter.

Ardal Fenter Eryri



Mae dau safle strategol yr Ardal Fenter yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ardal y Gogledd-orllewin fod ar flaen y gad mewn sectorau newydd a rhai sy'n tyfu, a gall buddsoddwyr elwa ar fyw a gweithio mewn amgylchedd naturiol heb ei ail yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri."

Sioned Williams, Pennaeth Datblygu'r Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd.

Mae 2 safle yn rhan o Ardal Fenter Eryri; safle datgomisiynu Trawsfynydd, gyda'i seilwaith ynni rhagorol, a Chanolfan Awyr a Pharc Menter Llanbedr, sy'n gallu cynnig darpariaeth ar gyfer mentrau ochr yr awyr a mentrau eraill ac sydd â'r potensial i wella gallu Cymru ym maes systemau awyrennau di-beilot (RPAS) yn sylweddol. Y nod yw sicrhau bod y seiliau hyn yn cael eu gosod a bod amodau'n cael eu sefydlu yn y ddau safle er mwyn meithrin twf economaidd cynaliadwy a buddsoddiad gan y sector preifat.

Mae asedau unigryw y ddau safle'n cael eu hadlewyrchu gan ffocws ar draws sectorau allweddol, gan gynnwys Ynni a'r Amgylchedd, TGCh a Gweithgynhyrchu Uwch. Mae eu statws fel safleoedd strategol allweddol yn eu gwneud nhw'n sbardunau economaidd pwysig i'r dyfodol ar gyfer yr ardal ehangach.

Yn ogystal, mae Bwrdd EZ, gan gynnwys partneriaid allweddol, yn parhau i ymgysylltu â'r broses gystadlu a arweinir gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) er mwyn sicrhau Sefydliad Rhiant-gorff (PBO) newydd i oruchwylio gweithgareddau datgomisiynu ar draws ei ystâd. Y nod yw sicrhau y gall y PBO newydd ddarparu'r manteision economaidd-gymdeithasol gorau posibl ar gyfer yr ardal trwy, er enghraifft, ryddhau tir a darparu cyfleoedd cadwyn gyflenwi.

Dyma'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Ardal Fenter Eryri:

- Bydd Eryri yn lleoliad a ffeirir ar gyfer mentrau technoleg digidol a charbon isel o safon uchel.
- Bydd yr Ardal yn manteisio'n llawn ar ei nodweddion unigryw; gan gynnwys ei seilwaith ynni, sydd o bwys cenedlaethol, a'i lleoliad yng nghanol y Parc Cenedlaethol.
- Bydd yr Ardal yn adeiladu ar gryfderau ei sail gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ragolygon economaidd yr ardal.

Mae datblygiadau allweddol yn cynnwys:

- Asesiad o'r Dewisiadau Strategol ar gyfer safle Trawsfynydd a fydd yn ystyried ac yn gwerthuso'r holl ddewisiadau ar gyfer y defnydd economaidd o'r safle i'r dyfodol.
- Mae Astudiaeth o Brisiau Ynni ar y gweill er mwyn deall yn well a all yr Ardal a'r rhanbarth ehangach gynnig mantais gystadleuol a chymharol o ran prisiau ynni, o ystyried ei rôl fel ardal cynhyrchu ynni allweddol.
- Mae'r Astudiaeth o Gysylltiadau Data Cyflym lawn yn deall gofynion y farchnad yn well ar gyfer cysylltiadau lled band uchel amrywiol ar gyfer y ddau safle, y tu hwnt i'r hyn a gynnigir gan Cyflymu Cymru.
- Mae'r ddarpariaeth band eang wedi'i blaenoriaethu ar gyfer yr Ardal; mae'r gwaith cynllunio cychwynnol wedi'i gwblhau a disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno tua chanol 2014.
- Mae Uwchgynllun ar gyfer Canolfan Awyr a Pharc Menter Llanbedr ar waith, a bydd yn costio £24,000. Dylai'r ymarfer hwn ddod i ben erbyn diwedd 2013.
- Mae ymarfer cwmpasu'n cael ei baratoi i asesu cyfanrwydd y ffibr ar y safle ac amlinellu cynllun manwl o ofynion sy'n addas ar gyfer pob math o ddefnyddiau. Dylai hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd 2013.

Astudiaeth Achos – QinetiQ ac Ystadau Maes Awyr Llanbedr

Ym mis Medi 2013, daeth QinetiQ ac Ystadau Maes Awyr Llanbedr (LAE), sydd yn Ardal Fenter Eryri, i gytundeb i ddatblygu amgylchedd system awyrennau di-beilot (UAS) Cymru ymhellach, gan ymgorffori Maes Awyr Llanbedr yn y Gogledd-orllewin fel canolfan weithredu sy'n gwella enw da y DU ymhellach o ran darparu cyfleusterau a gallu ar gyfer gweithrediadau UAS.

Y cytundeb rhwng QinetiQ ac LEA, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yw'r sbardun ar gyfer cynyddu'r gallu i weithredu UAS yn y DU yn gynnar yn 2014 ac mae'n galluogi i'r rhaglen UAS gael ei datblygu er mwyn cefnogi cyfleoedd Sifil ac Amddiffyn. Mae adfywio Maes Awyr Llanbedr fel canolfan weithredol ar gyfer awyrennau di-beilot yn ategu'r seilwaith a'r gwasanaethau presennol sy'n cael eu darparu gan Ganolfan UAV Gorllewin Cymru (WWUAVC) QinetiQ, ac mae'n cadarnhau amgylchedd UAS Cymru fel gallu unigryw sy'n ymroddedig i gyflymu twf y diwydiant UAS yn y DU a thu hwnt.

Gan adeiladu ar y gallu presennol a ddatblygwyd ac a ddarparwyd gan WWUAVC QinetiQ, bydd Llanbedr yn darparu gwasanaethau maes awyr gwell a mynediad i'r seilwaith pwrpasol a'r gofod awyr sydd eisoes ar waith trwy fuddsoddiad diweddar gan lywodraeth ranbarthol. Gan gyfuno seilwaith Maes Awyr Llanbedr â'r profiad, y wybodaeth a'r cyfleusterau sydd eisoes ar gael trwy WWUAVC QinetiQ, gellir manteisio ar brofion a gwerthusiadau galluoedd arddangos a hyfforddi heb eu hail, yn ogystal â mwy o ddewisiadau ar gyfer gweithrediadau parhaol ar gyfer cyfleoedd UAS sifil i'r dyfodol.

Mae Canolfan UAV Gorllewin Cymru QinetiQ yn cydgysylltu ac yn rheoli amgylchedd unigryw a grëwyd yn y DU i hwyluso a sbarduno twf y diwydiant systemau awyrennau di-beilot. Mae'r ganolfan yn darparu cymorth technoleg a pheirianneg, ymchwil a datblygu, cymorth technegol a gweithredol arbenigol, cyfleusterau profi a seilwaith rhagorol, hyfforddiant a threialon datblygu ac arddangos awyrennau. Gyda QinetiQ yn darparu'r seilwaith gweithredol, diogelwch a rheoli, mae'r amgylchedd hwn gyda'i olygon ar Ewrop wedi'i leoli ar Barc Technoleg Aberporth, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

"Mae'r weledigaeth strategol hirdymor ar gyfer Llanbedr yn gysylltiedig â'r sector systemau awyrennau di-beilot (UAS) ac mae'r cytundeb hwn rhwng QinetiQ ac Ystadau Maes Awyr Llanbedr yn gam pwysig ymlaen yn natblygiad y weledigaeth honno. Mae gan Faes Awyr Llanbedr y gallu i gynyddu gallu Cymru ym maes UAS yn sylweddol, a chafodd ei bwysigrwydd strategol ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru pan gafodd ei gynnwys o fewn ffiniau Ardal Fenter Eryri".

Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd



Mae Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd yn amgylchedd unigryw ar gyfer busnesau Awyrofod yng Nghymru, ac mae'n cynnwys tair ardal unigryw.

- Mae **Maes Awyr Caerdydd** yn cynnig cyfleoedd ar gyfer busnes a thwristiaeth yng Nghymru. Mae gan y safle y gallu i ddatblygu mentrau cludo llwythi i gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol.
- Bydd y rhaglen **Gateway Commercial** yn creu amgylchedd swyddfa o safon, cyfleusterau cludo llwythi a hamdden a chysylltiadau â'r byd academiaidd.
- Mae **Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan** yn gyfleuster diogel sy'n cynnig canolfan hirdymor â chysylltiadau da ar gyfer y diwydiant awyrofod a chwmnïau eraill sydd angen mynediad i ardal ochr yr awyr ac i ardaloedd eraill.

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer yr Ardal Fenter yw creu Porth i Gymru sy'n adeiladu ar y seiliau sydd eisoes yn eu lle i fanteisio ar y cyfleoedd i Sain Tathan - Maes Awyr Caerdydd ddatblygu i fod yn ganolfan ragoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer y diwydiant awyrofod, ac yn enwedig ar gyfer gweithgareddau cynnal a chadw, atgyweirio a gweithrediadau (MRO).

Dyma'r prosiectau a'r datblygiadau allweddol sy'n cael eu darparu i gefnogi'r weledigaeth hon:

- Comisiynu Uwchgynllun manwl mewn perthynas â safle Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd. Caiff y gwaith hwn, ynghyd â chyfres o argymhellion i'r Bwrdd, eu cwblhau yn gynnar yn 2014.
- Mae'r gwaith o adnewyddu Adeilad 858, Parc Busnes Awyrfod, wedi'i gwblhau, ac mae'r adeilad yn cael ei farchnata ar gyfer defnyddwyr nad ydynt angen bod yn ardal ochr yr awyr.
- Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r Maes Awyr yn Sain Tathan, yn enwedig y rhedffordd segur.
- Datblygu prosiect Gileston Bends, a fydd yn dechrau tua diwedd 2013 ac a gaiff ei gwblhau ym mis Awst 2014, gan ddarparu buddsoddiad o £2.75 miliwn yn yr Ardal.
- Cytundeb gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau mynediad rhannol i awyrendy enfawr ar y safle, gan alluogi tenant masnachol Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r rhan hon o'r Ardal.
- Trafodaethau parhaus gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn gan Lywodraeth Cymru i gytuno i drosglwyddo'r awyrendy enfawr yn Sain Tathan i berchenogaeth Llywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2017.
- Cyhoeddi bod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn bwriadu lleoli'r 14 Signal Regiment yn Sain Tathan fel rhan o ganlyniadau'r "astudiaeth leoli".
- Mae'r ddarpariaeth band eang wedi'i blaenoriaethu ar gyfer yr Ardal; mae'r gwaith cynllunio cychwynnol wedi'i gwblhau a disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei chyflwyno tua chanol 2014.

Astudiaeth Achos – eCube Solutions

Mae eCube Solutions, cwmni gwasanaethau hedfan a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2011 ac sy'n gweithredu ym maes awyr Sain Tathan ers mis Ebrill 2012, yn arbenigo yn y sector prosiect awyrennau 'diwedd oes', sy'n tyfu'n gyflym. Mae'r gwaith yn darparu cyfleusterau parcio a storio awyrennau, gwasanaethau dadgydosod a chapasiti storio ar gyfer cydrannau, gan gynnwys swmpeitemau ac injans. Darperir y gwasanaethau i bob math o gleientiaid rhyngwladol, megis cronfeydd buddsoddi a chwmnïau prydlesu awyrennau. Derbyniodd eCube £82,500 gan Gronfa Twf Economaidd Cymru Llywodraeth Cymru, a ddarparodd grantiau yn erbyn gwariant cyfalaf yn seiliedig ar gyflogaeth a grëwyd yn ystod 2012. Mae'r cwmni wedi elwa hefyd ar grant o £20,000 y flwyddyn dros dair blynedd o dan Gynllun Ardrethi Busnes Llywodraeth Cymru. Mae'r cwmni wedi cyflogi 15 o staff ers ei sefydlu, ac mae 9 ohonynt yn weithwyr cyflogedig parhaol. Ar hyn o bryd mae eCube wrthi'n cyflwyno cais am gontract strategol a fyddai'n dyblu ei lefelau staffio yn 2014.

"Mae'r busnes wedi'i leoli yn un o'r awyrendai gwreiddiol yn Sain Tathan, sydd wedi bod yn ganolfan ragorol ar gyfer gweithredu busnes o'r fath. Mae'r cyfnod sefydlu wedi bod yn llwyddiannus, gyda pherfformiad ariannol y flwyddyn gyntaf yn rhagori ar y gyllideb, a rhagamcaniad cryf ar gyfer yr ail flwyddyn ariannol. Cawn gymorth i ganfod cyfleoedd perthnasol o ran cymorth i fusnesau gan dîm Llywodraeth Cymru, sy'n deall ein hanghenion twf ac yn eu paru â chynlluniau priodol y llywodraeth."

Mike Corne, Cyfarwyddwr Masnachol a Phartner, eCube Solutions

Darpariaeth drawsbynciol i Ardaloedd Menter Cymru



Yn ogystal â nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth ar draws Ardaloedd Menter, aeth y Byrddau ati hefyd i ystyried a gwneud argymhellion ar gyfres o feysydd darparu trawsbynciol allweddol. Mae'r meysydd hyn, gan gynnwys TGCh, trafnidiaeth a sgiliau, yn cefnogi datblygiad yr Ardaloedd Menter a'u llwyddiant yn y dyfodol. Mae gwaith yn cael ei gyflawni ar draws y meysydd hyn, gan gynnwys;

Trafnidiaeth

Mae'r buddsoddiad arfaethedig mewn trafnidiaeth yn yr Ardaloedd Menter yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i wella cysylltiadau trafnidiaeth i bob un o'r Ardaloedd Menter, sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau trafnidiaeth Byrddau'r Ardaloedd Menter a sicrhau'r effaith economaidd orau bosibl.

Mae Bwrdd Ardal Fenter Canol Caerdydd yn rhanddeiliad allweddol yn Adroddiad Tasglu Trafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru. Mae astudiaeth ar waith i ystyried y cynigion ar gyfer system fetro yn fanwl er mwyn cefnogi twf economaidd ac adfywio mewn lleoliadau allweddol yng Nghaerdydd, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd, a ledled y De-ddwyrain.

Cyflwynodd Tasglu Trafnidiaeth Integredig Gogledd-ddwyrain Cymru adroddiad yn ystyried sut i sbarduno datblygiad system drafnidiaeth integredig yn y Gogledd-ddwyrain. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r Tasglu Gweinidogol newydd ar Drafnidiaeth Gogledd Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar. Mae'r Tasglu Gweinidogol yn cynnwys Cadeiryddion tair Ardal Fenter y Gogledd.


Yng Nglyn Ebwy, mae cyllid o £11.5 miliwn ar gyfer rheilffordd a gorsaf yng Nglyn Ebwy wedi'i gyhoeddi. Bydd y rheilffordd hon yn ymestyn o Barcfordd Glynebwy i safle y Gweithfeydd, fel elfen gychwynnol rhaglen ehangach i greu rhwydwaith trafnidiaeth mwy integredig yn y De-ddwyrain a chefnogi strategaeth y Ddinas-ranbarth. Bydd y buddsoddiad hwn yn hwb pellach i'r gwaith o adfywio'r ardal leol, yn unol ag uchelgais y Bwrdd.

Mae yna gynlluniau i ailystyried cynigion i wella'r A40, a nodwyd fel blaenoriaeth gan fwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau.

Mae astudiaeth drafnidiaeth gan AMEC wedi'i chynnal ar Ynys Môn ac mae'r argymhellion yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd fel rhan o'r adolygiad ehangach o flaenoriaethau trafnidiaeth.

Bydd datblygiad yr achos busnes ar gyfer moderneiddio rheilffyrdd y Gogledd a gwneud gwelliannau i'r A55, gan gynnwys Twneli Conwy, yn cefnogi uchelgeisiau Byrddau Ardaloedd Menter Glannau Dyfrdwy, Eryri ac Ynys Môn.





Mae Band Eang y Genhedlaeth Nesaf wedi'i flaenoriaethu ar gyfer yr Ardaloedd Menter, ac yn cael ei gyflwyno ar draws pob Ardal gyda BT Open Reach.

- Mae gwaith ar Ardal Fenter Ynys Môn wedi cychwyn. Mae cyfnewidfa Pont Menai ar waith, a disgwylir y bydd cyfnewidfeydd Llangefni a Gaerwen ar waith erbyn diwedd y flwyddyn, a'r cyfnewidfeydd eraill erbyn y gwanwyn nesaf.
- Mae Ardal Fenter Glyn Ebwy, gan gynnwys cyfnewidfeydd Brynmawr, Tredegar a Glyn Ebwy, bellach ar waith. Mae gwaith peirianeg yn cael ei gyflawni er mwyn parhau i alluogi gweddill y cabinetau band eang.
- Mae gwaith ar Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau wedi cychwyn, a disgwylir y bydd cyfnewidfeydd Penfro, Aberdaugleddau a Hwlfordd ar waith erbyn gwanwyn 2014.
- Mae Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy wedi'i galluogi. Erbyn hyn mae cyfnewidfeydd ar waith yn yr Ardal Fenter mewn rhannau o Gei Connah ac ar Ystad Ddiwydiannol Hawarden. Y bwriad yw i Sealand fod ar waith erbyn diwedd y flwyddyn.
- Mae gwaith ar Ardal Fenter Eryri wedi cychwyn, a disgwylir y bydd cyfnewidfeydd Trawsfynydd a Llanbedr ar waith erbyn gwanwyn 2014.
- Mae cyfnewidfeydd Sain Tathan, Llanilltud Fawr a'r Barri ar waith, a disgwylir y bydd cyfnewidfa y Rhws ar waith erbyn gwanwyn 2014. Mae swyddogion yn gweithio gydag Openreach i sicrhau cysylltedd ym mhob rhan o Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd.

Mae amryw o ymyriadau seilwaith TGCh ychwanegol yn cael eu hystyried hefyd, gyda'r gobaith y byddant o fudd i'r Ardaloedd Menter. Mae'r rhain yn cynnwys edrych ar sut y gellir sicrhau bod cyfleusterau cyfathrebu lled band uchel iawn ar gael yn fwy eang, gan wella gwasanaethau cyfathrebu Symudol a Di-wifr. Mae gwaith ymchwilio a chyfres o astudiaethau ar waith, gyda darpariaeth mewn Ardaloedd Menter yn cael blaenoriaeth i gael cymorth ym mhob un o'r ardaloedd hyn.

Datblygu Sgiliau



Rydym yn gweithio ar ddatblygu a darparu cymorth sgiliau er mwyn cefnogi'r anghenion cyflogaeth a sgiliau a nodwyd ym mhob Ardal. Mae'r rhain yn cynnwys:

Ardal Fenter Ynys Môn

Mae'r partneriaid Ynys Ynni o fewn yr Ardal Fenter wedi datblygu a chytuno ar Gynllun Gweithredu Strategol Addysg a Sgiliau, sy'n cynnwys tair thema:

- Manteisio'n llawn ar fuddiannau adeiladu niwclear
- Sicrhau cyflenwad o sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM)
- Manteisio'n llawn ar fuddiannau economaidd-gymdeithasol buddsoddiadau Ynys Ynni.

Mae gwahanol feysydd wedi'u nodi i gefnogi themâu'r Cynllun Gweithredu Strategol Addysg a Sgiliau.

Yn ddiweddar, aeth y rhaglen Ynys Ynni ati i newid pwyslais gweithgareddau ym maes sgiliau. Bydd y cynllun "INSPIRE" – Cynllun Sgiliau Integredig yn Cynnwys Disgwyliadau Rhanbarthol yn canolbwyntio ar ddarparu'r ymateb sgiliau i brosiectau megis Celtic Array, Land and Lakes, datblygiadau'r Grid Cenedlaethol, Lateral Power a Magnox.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau Ynys Ynni trwy Wasanaeth Eiriolaeth a ariennir trwy Raglen Cronfa Blaenoriaethau Sector Llywodraeth Cymru. Mae achosion busnes yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Mae cyllid ar gael i gefnogi 93 o brentisiaethau dros gyfnod o dair blynedd, gyda chyfraniadau gan Gynghorau Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy a Horizon Nuclear Power.

Ardal Fenter Canol Caerdydd

Rydym yn datblygu dull o ymdrin ag anghenion sgiliau er mwyn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer yr Ardal Fenter. Mae gwaith ar y gweill i ddarparu cymorth sgiliau i amryw o gyflogwyr o bwys yn yr Ardal, gan gynnwys Capital Law, NewLaw, Eversheds a Geldards.

Rydym yn darparu cymorth i Admiral hefyd trwy gyllid Sgiliau Twf Cymru. Mae'r prosiect hwn wedi cefnogi hyfforddiant arwain a rheoli sy'n gysylltiedig ag ehangu'r gweithlu i 5,200 o weithwyr cyflogedig yn Ardal Fenter Canol Caerdydd.

Yn ogystal, rydym wrthi'n datblygu dau brosiect newydd sy'n effeithio ar Ardal Fenter Canol Caerdydd. Cafodd y prosiect cyntaf, a arweinir gan Sgiliau er Cyfiawnder, ei lansio ym mis Medi. Mae'n gysylltiedig â darpariaeth prentisiaethau lefel uwch ar gyfer y sector cyfreithiol. Mae prentisiaethau bellach ar waith.

Mae'r ail brosiect yn cael ei reoli gan Atradius, ar ran consortiwm o gyflogwyr sy'n cynnwys Admiral, gyda'r nod o ddatblygu rhaglen ddwy flynedd i raddedigion, gan gefnogi 20 o raddedigion yn y Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol. Lanswyd y prosiect ym mis Medi ac mae graddedigion bellach wedi dechrau ar eu lleoliadau.

Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy

Y ffocws craidd yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy ar gyfer cymorth a datblygu sgiliau yw prentisiaethau. O ystyried y crynhoad o gwmnïau yn y diwydiant modur a gweithgynhyrchu sydd yn yr Ardal Fenter, mae'r Bwrdd wedi comisiynu astudiaeth i ystyried datblygiad Canolfan Ragoriaeth Gweithgynhyrchu Uwch, gyda ffocws sylweddol ar ddarparu sgiliau a chyflenwi gweithwyr medrus o fewn yr astudiaeth hon.

Bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i ystyried y ffordd orau o fanteisio ar y sgiliau a'r ddarpariaeth bresennol o fewn yr Ardal Fenter er mwyn cefnogi uchelgais y Bwrdd, ac anghenion yr Ardal Fenter a'r diwydiant.

Ardal Fenter Glyn Ebwy

Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar ddeall y sgiliau presennol sydd ar gael yn yr Ardal, gan edrych ar y cyflenwad a'r galw a'r bylchau ar draws yr Ardal ehangach. Mae ymarfer cwrmpasu wedi'i gynnal er mwyn deall y sefyllfa bresennol. Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd i ystyried prentisiaethau a chymorth hyfforddi a datblygu fel y gall yr Ardal ymgysylltu â darpar fusnesau.

Byddwn yn mynd ati i weithio gyda Bwrdd yr Ardal Fenter er mwyn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar brosiect Cylchdaith Cymru. Mae tîm prosiect wedi cychwyn ar y gwaith o ddatblygu sgiliau a'r gofyniad i gefnogi'r prosiect hwn, sy'n werth sawl miliwn o bunnoedd, a'i effaith o fewn yr Ardal.

Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Ardal Fenter i ystyried yr uchelgais o ddatblygu 'Academi Sgiliau Môr' ar gyfer Sir Benfro. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar sicrhau sgiliau i gefnogi holl gyflenwyr amrywiol Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae ymarfer cwrmpasu'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru.

Mae gwaith ymgysylltu'n cael ei gyflawni gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Dysgu Rhanbarthol a'r Gwasanaeth Eiriolaeth er mwyn deall y ddarpariaeth sy'n cael ei hariannu ar hyn o bryd yn Sir Benfro. Caiff hyn ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

Ardal Fenter Eryri

Mae Asesiad o'r Dewisiadau Strategol ar gyfer safle Trawsfynydd wedi'i gwblhau. Rydym wrthi'n ystyried y gofyniad sgiliau o'r asesiad hwn.

Mae dros £1.4 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn dwy raglen sgiliau lefel uchel er mwyn mynd i'r afael â gofynion sgiliau'r sector TGCh yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn ariannu dwy raglen beilot a fydd yn gweithredu ochr yn ochr ac yn darparu i hyd at 550 o bobl â'r sgiliau TGCh penodol a nodwyd gan gyflogwyr ledled Cymru.

Bydd Llwybrau at Gyflogaeth Ddigidol yn uwchsgilio ac ailhyfforddi hyd at 300 o bobl nad ydynt yn gweithio – gan gynnwys pobl sydd newydd raddio a'r rhai sy'n gadael y fyddin. Bydd Llwybrau at Dwf Digidol yn datblygu 250 o weithwyr TG proffesiynol cyflogedig i safon ardystiedig sy'n bodloni gofynion eu swydd yn llawn ac yn diwallu anghenion eu cyflogwyr. Caiff y ddau brosiect eu rheoli gan e-skills UK, gan ddarparu budd uniongyrchol yn Eryri.

Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd a'r tîm ar y safle i annog mewnfuddsoddwyr i adleoli i'r Ardal Fenter, ac mae gwaith yn parhau ar amryw o brosiectau. Mae Grŵp Recriwtio a Hyfforddi wedi'i sefydlu i sicrhau bod asiantaethau cymorth yn ymgysylltu'n llawn, gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro.

Rydym yn gweithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i ystyried y potensial o gynorthwyo deiliaid masnachfreintiau ac isgontractwyr cymwys ym Maes Awyr Caerdydd i nodi eu hanghenion o ran datblygu'r gweithlu.

Rydym yn parhau i gefnogi British Airways Maintenance Cardiff (BAMC) trwy raglen Sgiliau Twf Cymru (SGW). Mae cyllid o £300,000 wedi'i ddarparu i hyfforddi dros 300 o weithwyr cyflogedig a helpu i greu 53 o swyddi.

Y Cynllun Ardrethi Busnes

Mae'r Cynllun Ardrethi Busnes, a lansiwyd yn 2012/13 ac sy'n werth £20 miliwn, yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer rhwymedigaethau ardrethi busnes a ddaw i ran busnesau bach a chanolig yn y saith Ardal Fenter yng Nghymru.

Yn 2012/13, derbyniwyd 61 o geisiadau am gymorth tuag at ardrethi busnes. O'r rhain, cafodd 39 eu cymeradwyo, gan gynnig cymorth o fwy na £750,000 i fusnesau sy'n cyflogi dros 1,200 o bobl ar hyn o bryd ac ymrwymo bron i £2,500,000 yn ystod blynyddoedd ariannol 2012/13, 2013/14 a 2014/15.

2012/13	Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd
Ynys Môn	7	5
Canol Caerdydd	0	0
Glannau Dyfrdwy	14	9
Glyn Ebwy	6	6
Dyfrffordd y Ddau Gledau	24	17
Eryri	0	0
Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd	2	2
Heb fod mewn Ardal Fenter	8	0
CYFANSWM	61	39

Yn y flwyddyn ariannol bresennol, derbyniwyd 55 o geisiadau am gymorth tuag at ardrethi busnes yn dilyn cylch cychwynnol ym mis Mai. O'r rhain, cafodd 33 eu cymeradwyo (mae 27 wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, gyda 6 yn parhau). Bydd darparu'r rhain yn llwyddiannus yn darparu dros £900,000 i fusnesau sy'n cyflogi 900 yn rhagor o bobl, gan ymrwymo £2,012,963 yn ystod blynyddoedd ariannol 2013/14, 2014/15 a 2015/16.

2013/14	Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd	Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd
Ynys Môn	1	0
Canol Caerdydd	4	2
Glannau Dyfrdwy	26	22
Glyn Ebwy	3	2
Dyfrffordd y Ddau Gledau	11	7
Eryri	1	0
Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd	0	0
Heb fod mewn Ardal Fenter	9	0
CYFANSWM	55	33

Bydd y cymorth sydd ar gael trwy'r cynllun hwn, a fydd ar waith tan 2015/16, yn ceisio rhoi hwb sylweddol i'r dasg o greu swyddi a hybu twf busnesau o fewn yr Ardaloedd.

Lwfansau Cyfalaf Uwch

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn cynnig Lwfansau Cyfalaf Uwch (ECAs) ar gyfer rhai safleoedd mewn amryw o Ardaloedd Menter ledled y DU lle mae yna ffocws cryf ar weithgynhyrchu. Mae ECAs yn galluogi busnesau i hawlio 100% o lwfans y flwyddyn gyntaf ar gyfer cost cyfalaf buddsoddiadau mewn peiriannau cymwys a wnaed ar ôl mis Ebrill 2012 a chyn mis Mawrth 2017. Yng Nghymru, mae ECAs ar gael ar gyfer safleoedd penodol yn yr Ardaloedd Menter. Mae yna bedwar safle wedi'u nodi ar gyfer Lwfansau Cyfalaf Uwch mewn tair Ardal Fenter yng Nghymru: Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau ac Ardal Fenter Glyn Ebwy.

Mae mapiau manwl yn dangos lle mae'r ECAs yn berthnasol i'w gweld ar wefan Ardaloedd Menter Cymru (www.enterprisezones-wales.gov.uk).

Mae swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn y sector i flaenoriaethu seilwaith ar gyfer y safleoedd y dynodwyd ECAs ar eu cyfer. Bydd hyn yn sicrhau bod y safleoedd yn barod i ddarparu fuddsoddwyr ddechrau adeiladu arnynt.

Gorchmynion Datblygu Lleol

Rydym yn cynnal ymchwil i Orchmynion Datblygu Lleol. Mae Canllaw Arfer Da ar gyfer Gorchmynion Datblygu Lleol yn cael ei ddatblygu, a chaiff ei gyhoeddi i Awdurdodau Lleol yn yr hydref.

Marchnata a Datblygu Busnes

Bydd sbarduno twf a datblygiad busnesau presennol a busnesau newydd yn allweddol i lwyddiant yr Ardaloedd Menter gan fanteisio i'r eithaf ar arbenigeddau a chymorth pwrpasol yr ardaloedd.

Mae tua 167 o ymholiadau yn ymwneud ag Ardaloedd Menter wedi'u derbyn gan Linell Gymorth Gwybodaeth Busnes Llywodraeth Cymru. Rydym yn targedu buddsoddiad ym mhob ardal gyda'r nod benodol o sicrhau swyddi a thwf. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar linell ymholiadau cyfnod cynnar mewn perthynas â thros 2,000 o swyddi ledled y saith Ardal Fenter.

Mae marchnata Ardaloedd Menter Cymru wedi bod yn flaenoriaeth glir ers sefydlu'r Ardaloedd. Lansiwyd gwefan newydd arbennig (www.enterprisezones.wales.gov.uk) ym mis Mehefin 2013, ac mae wedi derbyn dros 7,100 o ymweliadau ers mis Mehefin 2013. Gwnaed mwy na 50 o'r ymholiadau am yr Ardaloedd Menter a dderbyniodd y Llinell Gymorth mewn ymateb i weithgarwch marchnata.

Rydym yn cydweithio'n agos i sicrhau bod pob Ardal yn cael ei hyrwyddo'n eang fel rhan o gynnydd ehangach y Sector. Mae detholiad o ddeunyddiau marchnata'n cael ei ddatblygu, gan gynnwys llenyddiaeth, stondinau arddangos, fideos hyrwyddo a gwibdaith 3D drwy bob Ardal. Mae gwaith ar arwyddion yr Ardaloedd Menter wedi dechrau gydag Awdurdodau Lleol.

Yn ogystal, mae Ardaloedd Menter wedi'u hymgorffori yng ngwaith marchnata a digwyddiadau'r Sector, ac yn y gwaith marchnata Cymru gyfan trwy'r tîm Buddsoddi Uniongyrchol Tramor (FDI).

Mesur cynnydd ar draws Ardaloedd Menter – Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu cyfres o ddangosyddion y gallwn ni eu defnyddio i fonitro a mesur perfformiad yn gywir ac effeithiol. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar ddatblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad a fydd yn ein galluogi i fesur perfformiad Ardaloedd Menter ac rydym yn disgwyl eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

Bydd yr amseru'n sicrhau bod yr holl wybodaeth reoli sy'n cael ei chasglu a'i hasesu ar hyn o bryd yn cael ei dilysu'n llawn. Yn ogystal, mae'r Byrddau Ardaloedd Menter yn parhau i ystyried, wrth i ardaloedd ddatblygu, a oes angen dangosyddion penodol pellach ar gyfer eu Hardaloedd er mwyn llywio'r blaenoriaethau strategol a nodwyd.

Bydd angen i'r dangosyddion gydnabod yr ymyriadau ariannol ac anariannol o fewn Ardaloedd Menter, felly byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o fesur cynnydd mewn meysydd allweddol, gan gynnwys cymorth i fusnesau, datblygu tir, lefel y buddsoddiad ac ymholiadau, yn ogystal â swyddi ar draws yr Ardaloedd Menter.

Ar ôl eu cyhoeddi fel gwaelodlin, caiff y dangosyddion eu mesur a'u hadrodd yn rheolaidd.

Arolwg Hydredol

Bydd arolwg o gwmnïau yn Ardaloedd Menter Cymru yn cychwyn yn yr hydref er mwyn deall sut mae Ardaloedd yn cefnogi busnesau. Bydd yr arolwg yn darparu gwaelodlin o wybodaeth i fonitro pa mor effeithiol mae'r ardaloedd daearyddol hyn yn cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu. Bydd yr arolwg yn ystyried hefyd yr effaith y mae ysgogiadau polisi, gan gynnwys darparu seilwaith busnes o'r radd flaenaf a chymhellion penodol, yn ei chael ar fusnesau a'r economi.

Cynhelir yr arolwg bob chwe mis er mwyn creu darlun clir o gynnydd ac effaith.

Camau nesaf

Yn y pen draw, mae llwyddiant Ardaloedd Menter yn dibynnu ar y rhai sy'n creu swyddi a thwf – y sector preifat. Er mwyn hwyluso'r swyddogion hyn o fewn EST, mae Sectorau a Busnesau yn canolbwyntio ar ddarparu prosiectau ac allbynnau llwyddiannus yn unol ag egwyddorion y Bwrdd, fel y cymeradwywyd gan y Gweinidog.

Bydd swyddogion yn parhau i ystyried cyngor a blaenoriaethau pob Bwrdd Ardal Fenter, ac yn cwmparu a blaenoriaethu unrhyw brosiectau ychwanegol a fydd yn helpu'r Ardaloedd Menter i ddarparu swyddi, twf a chyfoeth i Gymru.